



Rhieni dros Addysg Gymraeg  
Parent for Welsh medium Education

---

Sylwadau RhAG

ar

Ymgynghoriad Effeithlonrwydd 2014 - 15  
Cynigion Cam 1

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**I sylw:**

AROLWG EFFEITHLONRWYDD  
RHADBOST SWC3611  
MERTHYR TUDFUL  
CF47 8GZ

**Cyswllt:**

Ceri Owen  
Swyddog Datblygu RhAG  
Tŷ Cymru  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
Caerdydd  
C23 8RD

02920 739 207 / 07912175403  
[ceri@rhag.net](mailto:ceri@rhag.net)

## Cefndir

Dymuna RhAG ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr am y cyfle i gyfrannu sylwadau i'r ymgynghoriad dan sylw. Carwn gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r argymhelliad sydd o ddiddordeb pennaf inni fel mudiad, sef Cynnig 12 sy'n ymwneud â chludiant 16+.

Mae'n bryder gennym mai'r tro cyntaf inni glywed dim am yr ymgynghoriad a'r cynnig i ddileu cludiant 16+ oedd mewn cyfarfod o Fforwm Addysg Gymraeg Merthyr ar 14eg Ionawr – dros wythnos wedi dyddiad cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol ynglyn â gweithdrefnau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Gyngor er mwyn sicrhau fod pob rhanddeiliaid yn ymwybodol am ymgynghoriadau perthnasol i'w cylch gorchwyl.

## Y cynnig

### **Cynnig 12: Trafnidiaeth Ysgol: Darpariaeth ôl-16 oed**

**Y cynnig yw rhoi'r gorau i ddarparu trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim a thrafnidiaeth o'r cartref i'r coleg am ddim i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n derbyn addysg a hyfforddiant ar ôl-16 oed. Mae hyn yn cynnwys bysiau pwrpasol ynghyd â thocynnau bysiau a threnau. Dydy'r gwasanaeth yma ddim yn statudol. Arbed £115k y flwyddyn.**

## **CYFLEOEDD CYFARTAL A CHYDRADDOLEB**

- Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (SACC), Llywodraeth Cymru sy'n gosod cyfeiriad polisi cenedlaethol mewn perthynas ag Addysg Gymraeg, yn gosod cydraddoldeb fel un o'i egwyddorion canolog:

“Mae cyfle cyfartal yn thema drawsbynciol sy'n rhan annatod o'r Strategaeth hon a phob polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.[...] Dylai addysg cyfrwng Gymraeg adlewyrchu cyfansoddiad adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru yn gyffredinol, a dylai fod ar gael i bob cymuned, gan gynnwys y rhai o dan anfantais a llawn amrywiaeth ethnig, a dylent fanteisio arni.” (t.12)

- Nid oes amheuaeth y byddai torri cludiant 16+ yn cael effaith andwyol ar ddyfodol addysg Gymraeg ym Merthyr a Chwm Cynon fel ei gilydd.
- Gan fod addysg Saesneg 16+ yn o fewn cyrraedd llawer haws i'r rhan fwyaf o'r disgyblion, **mae codi tâl i gael mynediad at addysg Gymraeg yn gosod addysg Gymraeg o dan anfantais amlwg.**
- Pwyswn arnoch fel Gyngor i berchnogi eich cyfrifoldeb statudol a sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael mor hwylus â phosib i bawb sy'n dymuno manteisio arni.
- Gan nad oes ysgol gyfun Gymraeg ym Merthyr, mae cenhedlaeth o blant y sir wedi, ac yn parhau, i deithio'n ddyddiol i Hirwaun er mwyn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cynnig hwn yn tanseilio'r bartneriaeth llwyddiannus sydd eisoes mewn lle gyda Rhondda Cynon Taf er mwyn darparu addysg uwchradd cyfrwng Gymraeg i blant Merthyr.
- Byddai codi tâl am gludo disgyblion 16+ i Ysgol Gyfun Rhydywaun yn debygol o ddod ag addysg 16+ hyfyw yno i ben.

- Byddwch yn ymwybodol o bwyslais cynyddol Llywodraeth Cymru ar gydweithio traws-ffiniol rhwng Awdurdodau Lleol wrth ddarparu gwasanaethau, nodwedd sy'n rhagflaenu'r newidiadau pellgyrhaeddol sydd ar y gorwel, sydd fel sydd wedi'u amlinellu yn Adroddiad Comisiwn Williams.
- Mae darpariaeth cludiant effeithiol, ac heb gost, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb i addysg Gymraeg, gan fod y ddarpariaeth yn bellach o gartrefi'r rhan fwyaf sy'n manteisio arni. Nid oes cydraddoldeb os yw'r ganran sy'n talu am gludiant i dderbyn addysg Gymraeg yn llawer mwy na'r ganran a fyddai'n talu hyn i fynychu addysg 16+ Saesneg.
- Bydd codi tâl am gludiant yn effeithio'n anghymesur ac afresymol ar rai sy'n derbyn addysg Gymraeg 16+ yn y Sir. Byddai hyn yn effeithio ar hyd at 5 o bob 10 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydywaun a 100% o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg Merthyr.
- Mae codi tâl am gludiant ysgol yn mynd i gosbi'r llai cefnog yn fwy na neb, a pheri na fydd disgyblion o gefndiroedd tlotach yn gallu parhau ag addysg Gymraeg. Byddai'n peri fod addysg Gymraeg yn seiliedig ar hap cod post.
- Rydym yn ymwybodol fod pryder cyffredinol gan rieni y bydd addysg eu plant yn dioddef.
- Mae rhieni hefyd yn poeni am eu sefyllfa ariannol a fydd yn peri na fyddant yn gallu fforddio'r bws ysgol.
- Yn wahanol iawn i Goleg Merthyr ac i ddisgyblion cyfrwng Saesneg y Sir, mae pob un o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg Merthyr yn gorfod teithio allan o'r sir i dderbyn eu haddysg uwchradd. Yn wahanol i'w cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg mae pob un o'r disgyblion hyn yn dibynnu ar fws i ddod i'r ysgol.
- Yn wahanol i Goleg Merthyr, nid oes gwasanaeth bysiau cyhoeddus hwylus i Ysgol Gyfun Rhydywaun, felly mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn dibynnu ar fysiau ysgol a ddarperir gan y Sir.
- Dymunwn ofyn a oes astudiaeth ddichonoldeb gynhwysfawr wedi'i chynnal er mwyn gwirio pa arbedion effeithlonrwydd posibl y gellid eu gwneud i'r trefniadau cludiant presennol, a hynny heb gyfaddawdu darpariaeth 16+ Rhydywaun?

**Awgrymwn nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr wedi ymchwilio i effaith codi tâl am gludiant ysgol ar addysg Gymraeg 16+, ar addysg 16+ yn gyffredinol nac ar deuluoedd llai cefnog. A oes Asesiad Effaith Cydraddoleb wedi'i gynnal yn y cyswllt hwn? Byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar ddewisiadau rhieni yn y sector meithrin a'r cynradd. Pe gwaredir cludiant 16+ am ddim mae'n anorfod na fyddai cyfran helaeth o rieni Merthyr wedi dewis addysg Gymraeg yn y lle cyntaf. YR EFFAITH TYMOR HIR AR NIFEROEDD ADDYSG GYMRAEG YM MERTHYR YW UN O'R PRYDERON MWYAF O SAFBWyNT Y CYNIGION HYN.**

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL YR AWDURDOD LLEOL

- Bydd torri cludiant 16+ am ddim yn milwrio'n erbyn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Llafur Cymru i dorri'r cylch caeth rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol.
- Mae'n ymddangos nad yw'r Sir wedi cynnal ymchwil i effaith codi tâl am fysiau ysgol i addysg 16+ ar:
  - Addysg Gymraeg
  - Teuluoedd ag incwm bach
  - Parhau ag addysg 16+ yn gyffredinol.
- Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi modd i awdurdodau lleol dalu'n llawn neu'n rhannol am gostau teithio disgyblion lle nad yw teithio'n rhad yn statudol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Rhan o ddyletswydd yr Awdurdod yw darparu cludiant nad yw'n rhoi straen tymor hir diangen ar ddisgyblion, a fyddai'n eu rhwystro rhag manteisio ar yr addysg a ddarperir. Mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio ac i weld patrwm o ddarpariaeth sy'n ymateb i ddewis rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg ac i amgylchiadau lleol.
- Mae cymal 10 y Mesur yn nodi hyn:

### **Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg**

Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

- Mae'r **Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr** sy'n cyd-fynd â'r Mesur yn nodi 'bydd y ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol o dan unrhyw reoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 7 o'r Mesur am drefniadau teithio i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac unrhyw reoliadau o dan adran 8 o'r Mesur mewn perthynas â theithio i gael addysg feithrin.'
- Ymhellach i hynny mae'r Canllawiau yn nodi '**pe betai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i drefniadau teithio i ddysgwyr a'r newidiadau hynny'n lleihau'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu yr ymddengys y byddai'n arwain at leihad yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, byddai Gweinidogion Cymru yn barod i ddefnyddio darpariaethau eraill yn y Mesur er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn newid.** Byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried cyhoeddi cyfarwyddiadau o dan adran 15 petai'n ymddangos bod y newidiadau yn y ddarpariaeth o gludiant i ddysgwyr yn effeithio ar effeithiolrwydd neu ddichonolrwydd ysgol cyfrwng Cymraeg.'

Mae'r Canllawiau yn ystyried fod arferion da o ran y dyletswydd i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys:

- ystyried dymuniad y disgyblion a'r rhieni pan fydd awdurdodau lleol yn asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2 o'r Mesur.
- Peidio a gweithredu na chynghori mewn unrhyw ffordd a fyddai'n difrio dysgwyr sydd eisiau derbyn addysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Noder fod **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cynllun yn gosod allan cynigion yr awdurdod lleol ar sut y bydd yn gweithredu ei swyddogaethau addysgiadol ar gyfer:

- Gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ("Addysg Cyfrwng Cymraeg") yn ei ardal

Wrth nodi hynny mae'r Canllawiau yn pwysleisio y dylai Awdurdodau Lleol gymryd teithio gan ddysgwyr i ystyriaeth a'i gorffori i'r cynllun.

- Ceir gwrthdaro amlwg â'r blaenoriaethau sydd wedi'u amlinellu yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir. Mae drafft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Merthyr Tudful (2014-17) yn cynnwys targed i gynnyddu o 12% (60 disgybl) y nifer o blant 7 oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2017. Mae targed pellach hefyd i gynnal y ganran trosglwyddo rhwng gwahanol gyfnodau allweddol, gan gynnwys addysg uwchradd (100% ar hyn o bryd). **Byddai gweithredu'r cynnig hwn yn gwneud cyflawni'r targedau hynny'n heriol, os nad yn amhosibl.**
- Mae'r SACC yn ategu hyn, gan nodi y dylai ALI 'hyrwyddo'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd statudol cyfrwng Cymraeg, a sefydliadau sy'n darparu addysg bellach ac addysg feithrin, wrth arfer swyddogaethau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.' (AS1.9, t.14)
- Yn wir byddai gweithredu'r polisi hwn yn cwestiynu gallu'r awdurdod i gyflawni gofynion statudol y **Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009**. Mae'r **Mesur** yn darparu'r sylfaen statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, trwy sicrhau y caiff cwricwla lleol eu creu a fydd yn cynnwys ystod eang o gyrsgiau a chyfleoedd y bydd gan ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru yr hawl i ddewis ohonynt. Mae hefyd yn nodi hawl dysgwyr i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd ganddynt. Byddai'r cynnig hwn yn tansellio hyfywedd y 6ed dosbarth, lefelau staffio ac ystod darpariaeth 14+ yn yr ysgol.
- Mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, dywed y **Mesur**:

## 5 Cwricwla lleol: yr iaith Gymraeg

Ar ôl adran 116A o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) mewnosoder—

### "116B Local curricula: Welsh language

(1) Each local education authority must exercise their functions in relation to local curricula so as to promote access to and availability of courses of study which are taught through the medium of the Welsh language.

- Mae **Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009** yn gwneud darpariaethau pellach ynglyn â'r dewisiadau posib. Mae rheoliad 3 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol lunio un cwricwlwm lleol neu fwy ar gyfer ei ardal mewn da bryd i alluogi disgyblion i ddewis dilyn cwrs astudio yn unol â rheoliad 8. Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer isafswm o gyrсияu a chyrсияu galwedigaethol i gael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Erbyn blwyddyn ysgol 2012 - 2013 rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnwys o leiaf 30 o gyrсияu astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.
- Mae **Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfyrrwyr 16 i 18 oed Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol** i helpu Gweinidogion Cymru i gynllunio cwricwla lleol ar gyfer myfyrrwyr 16 i 18 oed. Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol ar gyfer myfyrrwyr rhwng 16 a 18 oed ar gyfer ardal awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam a fyddo'n rhesymol er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrсияu astudio yn cael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Mae hefyd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur ac i gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.
- O safbwynt yr iaith Gymraeg mae'r **Canllawiau** yn nodi cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol mewn perthynas â hyrwyddo mynediad at gyrсияu cyfrwng Cymraeg.
- Fel sydd wedi'i nodi yn Adran 33B Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 lle mae'n datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau er mwyn hybu cyrsiau astudio cyfrwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael. Mae'r Canllawiau yn nodi bod rhaid i gynllunwyr cwricwla lleol roi ystyriaeth briodol hefyd i nodau clir addysg 14-19 a osodir yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef:

"Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus". (Amcan Strategol 2, t.14)

- Dylai cynllunwyr cwricwla lleol roi ystyriaeth lawn i barhad a dilyniant ieithyddol wrth ddatblygu cyrsiau'r cwricwla lleol i fyfyrrwyr 16 i 18 oed.
- Mae'r **Canllawiau** hefyd yn nodi y dylid hybu parhad ieithyddol mewn cyrsiau astudio ac iddo fod yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio cwricwla lleol ar

gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed. Mae'n hanfodol felly y dylai cynllunwyr cwricwla lleol gymryd yr holl gamau priodol i sicrhau bod person ifanc sydd wedi astudio rhai o'i bynciau neu ei holl bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 yn cael y cyfle i'w hastudio drwy'r un cyfrwng pan fydd rhwng 16 a 18 oed. **Dylid edrych yn holistig ar ansawdd profiad ieithyddol person ifanc wrth gynllunio'r cwricwlwm lleol.** Dylid ystyried yn llawn ddymuniad person ifanc sydd am dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gynllunio sut i ddarparu'r cwricwlwm lleol.

- Mae hyn yn gyson ag un o gonglfeini'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sef fod, 'gwella dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn awdurdodau lleol ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant.'(AS3.1, t.16)

Nid oes tystiolaeth fod y Sir wedi rhoi sylw i unrhyw Ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i Addysg Gymraeg wrth lunio'r cynnig hwn, ac ni roddir ystyriaeth o gwbl i sut byddai'r cynnig presennol yn hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. **Yn wir, mae Cynnig 12 yn milwrio'n llwyr yn erbyn ysbryd a llythyren y deddfau hyn.**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae siroedd fel Abertawe a Bro Morgannwg wedi ystyried dileu cludiant ôl 16 am ddim, ond yna wedi rhoi'r syniad i'r neilltu oherwydd y byddai'n cael effaith afresymol ar ddysgwyr ifanc. Yn wir, dim ond yr wythnos diwethaf y cafwyd cadarnhad bod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr hefyd am gefnu ar y syniad. Mae'n profi fod cysail eisoes yn bodoli ble mae siroedd wedi blaenoriaethu'r gwariant hwn a chanfod arbedion i'w cyllidebau trwy ffyrdd amgen. Galwn ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr i wneud yr un penderfyniad er mwyn diogelu lles a buddiannau eu pobl ifanc, parchu cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â iaith Gymraeg a chydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol sy'n ofynnol ohonoch mewn perthynas ag Addysg Gymraeg.

Hyderwn y rhoddir ystyriaeth lawn i'r materion uchod fel rhan o'r broses ymgynghori ac wrth ffurfio'r cynnigion terfynol.

### **Ffynonellau:**

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Llywodraeth Cymru.

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2010, Rhif Dogfen: 083/2010

Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009

Canllawiau arfaethedig ar Ddarpariaethau Statudol a Chanllawiau Gweithredol ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, 12 Ionawr 2014

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr: 021/2010, Gorffennaf 2010

Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009  
Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfirwyr 16 i 18 oed

Papur Ymgynghoriad Effeithlonrwydd 2014 – 15: Cynigion Cam 1, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
<http://www.merthyr.gov.uk/English/CouncilAndDemocracy/Consultations/Documents/Public%20Consultation%20Proposals%202014-2015.pdf>

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (drafft) Merthyr 2014-17